

## Cymraes ym Birmingham

gan Bethan Pritchard

Ar ôl treulio bron i ddwy flynedd yn byw ac yn astudio mewn dinas fawr yng nghanolbarth Lloegr, nid wyf yn teimlo'r un mymryn yn llai o Gymraes. A dweud y gwir, teimlaf fod gen i fwy o hunaniaeth Gymraeg ar ôl i mi ddechrau yn y brifysgol. Rwyf yn fy ail flwyddyn yn astudio deintyddiaeth ym Mhrifysgol Birmingham ac rwy'n llwyr fwynhau pob munud!

Mae dau Gymro arall yn fy mlwyddyn, y ddau o'r de, ond y fi yw'r unig un sy'n siarad Cymraeg. Mae Cymru yn lle estronol i'r mwyafrif o'm cyd-fyfyrwyr. Mae ambell un wedi ymweld â Betws-y-Coed ar dri Bioleg ond, ar y cyfan, prin yw'r wybodaeth am Gymru. Dw i wedi manteisio ar y cyfle yma i geisio addysgu fy ffrindiau am y wlad, ein hiaith a'n traddodiadau. Mae fy ngallu i siarad Cymraeg wedi denu diddordeb mawr, yn enwedig gan fy mod wedi derbyn y rhan fwyaf o'm haddysg yn Gymraeg. Yn ystod wythnosau cynnar fy mlwyddyn gyntaf, cefais gais ar ôl cais i adrodd yr enwog Llanfairpwllgwyngyll..., a phawb eisiau dysgu ychydig o eiriau Cymraeg. Tasg a hanner oedd egluro pam nad oes gen i acen 'Gavin a Stacey' a bod llefydd eraill heblaw Caerdydd yng Nghymru! Sioc arall i'r Saeson oedd clywed fy mod yn byw mewn ardal drefol, ac nid ar fferm anghysbell!

Wedi dweud hynny, nid yw Birmingham yn debyg i Ogledd Cymru o gwbl. Rwy'n byw gyda thair merch arall yn Selly Oak, tref sy'n amlwg wedi ei ddylunio er mwyn apelio at fyfyrwyr. Ceir yma bwl nofio, parc, Aldi, tafarndai, lluoedd o siopau bwyd-cyflym a sawl caffi; ffefryn fy Nhad yw'r enwog 'Selly Sausage!' Dw i'n medru cerdded i gampws y brifysgol a'r ganolfan hamdden, ond er mwyn cyrraedd yr ysbyty deintyddol yng nghanol y ddinas, byddaf yn mynd ar y trê, profiad newydd i mi! Mae cae criced Edgbaston gerllaw ac mae fy nhad a'm brawd yn mwynhau mynd i wyluo gemau yno tra fy mod i, fy Mam a'm chwirydd yn heidio i'r ganolfan siopa anferth, y 'Bullring.' Rydym yn gobeithio ymweld â 'Cadbury World' cyn bo hir a theithio ar gwch ar y gamlas yn yr haf.

Teimlad braf eleni oedd yr holl gyfarchion yn dymuno Dydd Gŵyl Dewi hapus i mi, ar ôl egluro ystyr a dathliadau'r diwrnod a mynychu darlithoedd yn gwisgo daffodil a rhannu cacennau cri. Eironig o beth oedd cael darlithydd Cymraeg y diwrnod hwnnw! Diwrnod pwysig arall bob blwyddyn yw'r gêm rygbi gystadleuol rhwng Cymru a Lloegr yn y bencampwriaeth chwe gwlad. Roedd y fuddugoliaeth ysgubol y llynedd yn gyfle gwych i frolio o flaen y Saeson, ond cedwais yn dawel eleni!

Rhywbeth nad oeddwn i wedi ei ragweld oedd y trafferthion a gafodd pawb wrth geisio ynganu fy enw, 'Bethan,' yn y ffordd Gymreig, yn enwedig gan fod cymaint o bobl eraill gydag enwau dieithr a chymhleth y fy marn i, a neb yn cael trafferth gyda'r rheini. Dw i'n diolch yn awr mai enw syml sydd gen i; beth pe bawn yn Angharad neu'n Gwenllïan?

Hyd yn hyn mae fy nghwrs wedi canolbwyntio ar waith theori ac mae'n anhygoel faint rwyf wedi ei ddysgu o fewn blwyddyn a hanner. Rwyf wedi treulio'r mwyafrif o'm hamser yn yr ysgol feddygol, sydd wedi ei lleoli'n agos iawn at yr ysbyty enwog Queen Elizabeth, lle caiff milwyr sydd wedi eu hanafu yn Afghanistan a'r ferch ysgol enwog a gafodd ei saethu gan y Taliban yno, eu trin. Edrychaf ymlaen at yr her nesaf yn y broses, sef dechrau ar y gwaith ymarferol, yn enwedig am fod yr ysbyty deintyddol newydd ar hen safle'r BBC yn Pebble Mill yn y broses o gael ei adeiladu.

Rwyf wrth fy modd yn astudio deintyddiaeth ac rwy'n mwynhau'r profiad o fyw mewn dinas brysur. Rydw i wedi cwrdd â phobl o ystod eang o gefndiroedd a chrefyddau ac wedi gwneud ffrindiau gwych. Rwyf yn llawn cyffro wrth feddwl am y blynyddoedd sydd i ddod a'r sgiliau sydd yn rhaid i mi eu meistroli cyn cael ymuno'n llawn â'r proffesiwn.

[Mae Bethan yn hanu o Landrillo-yn-Rhos, ger Bae Colwyn ac yn gyn-ddisgybl o Ysgol y Creuddyn, Bae Penrhyn]